| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Chwefror 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Hugh Evans, Arweinydd/ Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a'r Parth Cyhoeddus |
| **Teitl:** | **Gweledigaeth Twf a Strategaeth ar Gyfer Economi Gogledd Cymru** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd gyda datblygu'r Strategaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru a gadarnhawyd gan y Cabinet ym mis Medi 2016 ac amlinellu'r model llywodraethu rhanbarthol arfaethedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn dilyn cadarnhau'r Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru gan bob un o'r 6 cyngor yng Ngogledd Cymru yn hydref 2016, mae Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth mewn 'Bid Twf' ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol a chyflwyno pwerau i'r rhanbarth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i flaenoriaethu cynnwys y strategaeth ar gyfer cynhwysiant mewn bid ffurfiol. Mae'r chwe chyngor wedi cyrraedd cytundeb amlinellol ar fodel llywodraethu ar gyfer y strategaeth economaidd ranbarthol. Mae'r model llywodraethu rhanbarthol a ffafrir o gydbwyllgor statudol wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gwahoddir y Cabinet i

3.1 Cadarnhau'r model llywodraethu rhanbarthol a ffafrir o gydbwyllgor statudol ar gyfer datblygiad pellach.

3.2 Cyfarwyddo swyddogion i weithio gyda chydweithwyr mewn cynghorau partner i ddatblygu cyfansoddiad a chytundeb rhyngasiantaethol ar gyfer y Cydbwyllgor arfaethedig ac i ddod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor ei ystyried gan ddechrau ar fodel cydbwyllgor statudol gyda phum cyngor partner, o fewn y tri mis cyntaf o dymor newydd y Cyngor.

3.3 Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'u hystyriaethau.

## 4. Manylion yr adroddiad

**DATBLYGU BID TWF**
Cafodd y Weledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan 6 Cyngor Gogledd Cymru yn hydref 2016. Mae copi ynghlwm er gwybodaeth (Atodiad 1). Mae'r weledigaeth yn nodi uchelgais clir ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer datblygu isadeiledd, sgiliau a chyflogaeth, a thwf busnes. Mae'r strategaeth yn anelu at gynyddu gwerth yr economi ranbarthol o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 trwy greu 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd.

Mae rhanbarthau dethol o Loegr, Ranbarth Prifddinas Caerdydd a Rhanbarth Dinas Bae Abertawe, wedi cael eu gwahodd gan Lywodraeth y DU i ddatblygu 'Bid Twf' i'w gymeradwyo. Cafodd Gogledd Cymru wahoddiad i ddatblygu bid gan Lywodraeth y DU yng nghanol 2016. Cafodd ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi bid rhanbarthol ei ailddatgan yn natganiad yr hydref y Canghellor ym mis Tachwedd 2016.

Mae Bid Twf yn gynnig ffurfiol am fuddsoddiad y Llywodraeth a'r rhoi pwerau datganoledig. Mae'n ofynnol i ranbarthau sy'n gwneud bid gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Disgwylir i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau eu hunain, ochr yn ochr â Llywodraeth(au), mewn dyraniadau cyfalaf, rhannu mewn benthyca cyfalaf, y defnydd o dir ac asedau, ac wrth ddarparu adnoddau capasiti proffesiynol a phrosiect. Bydd pob bid wedi trafod amcanion a thargedau. Ar gyfer Gogledd Cymru, Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Rhanbarth Dinas Bae Abertawe, mae'r broses fidio yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r DU.

Ar gyfer Gogledd Cymru mae disgwyliad gan y Llywodraeth bod yna gynllunio strategol agos ar y cyd â rhwydwaith cyfagos Gogledd Orllewin Lloegr a rhwydwaith ehangach Pwerdy'r Gogledd. Mae ein gweledigaeth a strategaeth yn adeiladu ar y cynghreiriau cryf a'r cyd gynllunio sydd eisoes wedi digwydd yn y rhanbarth drwy waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac ar draws y ffin trwy Gynghrair Dyfrdwy Merswy a chydweithio gyda Phartneriaeth Menter Lleol Swydd Caer a Warrington. Mae bidiau twf Gogledd Cymru a Swydd Caer a Warrington yn cael eu datblygu gyda'i gilydd ac mae cyd-ddibyniaeth am eu llwyddiant. Mae Gogledd Cymru hefyd yn gwneud cyfraniadau i strategaeth ehangach rhwydwaith Pwerdy'r Gogledd, er enghraifft enwebu prif safleoedd strategol ar gyfer twf busnes a mewnfuddsoddi. Mae isadeiledd ffyrdd a rheilffyrdd a chysylltedd, a chynllunio trafnidiaeth ehangach gan gynnwys llwybrau bysiau, yn ganolog i'r strategaeth. Mae'r cynllun Trac Twf 360 sy'n gwneud yr achos dros fuddsoddiad trawsffiniol mewn rheilffyrdd yn mynd rhagddo drwy gamau gwneud achos a gwneud penderfyniadau'r Llywodraeth.

Mae Gogledd Cymru yn rhanbarth unedig gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth. Mae'r strategaeth yn cael ei chefnogi gan arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe awdurdod unedol yn y rhanbarth, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Coleg Cambria a Choleg Grŵp Llandrillo - Menai. Mae'r strategaeth hefyd yn cael ei chefnogi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sydd ag aelodaeth eang sy'n cynrychioli'r sector cyhoeddus, preifat, addysg a thrydydd sector. Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn parhau i fod yn rhwydwaith rhanddeiliaid pwysig.

Disgwylir i lywodraeth leol arwain y gwaith o gynllunio a gweithredu'r strategaeth ac mae rôl ganolog llywodraeth leol yng Nghymru o ran cynllunio rhanbarthol wedi cael ei atgyfnerthu gan ddatganiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Chyllid, ac yn fwy diweddar yn y papur gwyn ar gyfer diwygio llywodraeth leol.

Ochr yn ochr â'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, mae angen model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer y cyfnodau critigol o (1) datblygu Bid Twf ffurfiol o'r strategaeth (2) cytuno ar gynllun buddsoddi a (3) gosod a goruchwylio cynllun gweithredu.

**Y MODEL LLYWODRAETHU A FFEFRIR**

Mae yna ychydig o fodelau llywodraethu sydd ar gael i'r chwe chyngor partner. Er y gallai model awdurdod cyfunol, sydd yn dod yn fwyfwy poblogaidd yn Lloegr yn bosibl yn y dyfodol, nid oes capasiti deddfwriaethol ar gyfer y model hwn yng Nghymru ar hyn o bryd. Y model llywodraethu a ffefrir a argymhellir gan yr arweinwyr a phrif weithredwyr y cynghorau partner, ac a gefnogir yn anffurfiol gan weision sifil Llywodraeth Cymru, Swyddfa Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU, yw cydbwyllgor statudol.

Mae'r model cydbwyllgor statudol yn fodel hysbys a dibynadwy. Mae'n fodel gyda chyfyngiadau, fodd bynnag. Er mwyn cefnogi'r cydbwyllgor bydd angen enwebu awdurdod lletyol i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol, a bydd angen enwebu un neu fwy o awdurdodau lletyol i gynnal y swyddogion proffesiynol a fydd yn rheoli'r rhaglenni a phrosiectau o fewn gweithrediad y strategaeth. Gallai cael sawl awdurdod lletyol fod yn fodel mwy ymarferol gan y bydd yna sawl swyddogaeth i oruchwylio - yn benodol datblygu economaidd, trafnidiaeth, a sgiliau. Mae cydbwyllgorau yn fodel cyfarwydd yn y rhanbarth gydag enghreifftiau diweddar yn cynnwys y Consortiwm Gwella Ysgolion GWE a Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Enghraifft berthnasol o'r gorffennol yw Taith fel y cyn-gonsortiwm a chyd-bwyllgor trafnidiaeth.

Mae amlinelliad o'r cylch gorchwyl a awgrymir wedi ei nodi yn Atodiad 2. Bydd y cyd-bwyllgor yn gofyn am gyfansoddiad, a fydd yn cynnwys y cylch gorchwyl ar gyfer ei swyddogaethau, a bydd yn cael ei danategu gan Gytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA). Mae IAA yn gytundeb ar y cyd sy'n nodi sut y bydd y cyd-bwyllgor yn cael ei lywodraethu, y cyfyngiadau o ran gwneud penderfyniadau a'r materion sy'n cael eu cadw ar gyfer cymeradwyaethau unigol cynghorau, rolau awdurdodau lletyol, sut y dylai cyfraniadau ariannol i'r cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lletyol gael eu dosrannu, a sut y bydd risgiau a manteision yn cael eu rhannu.

Yr aelodaeth a argymhellir o'r cydbwyllgor yw arweinwyr pob un o'r chwe chyngor. Byddai gan bob arweinydd ddirprwy enwebedig. Byddai'r pwyllgor yn cael ei gynghori gan weithwyr proffesiynol arweiniol a'r prif weithredwyr. Mae opsiwn i gyfethol cynrychiolydd o sefydliadau partner allweddol gan gynnwys Cyngor Busnes Gogledd Cymru, addysg uwch ac addysg bellach. Bydd perthynas waith agos gyda Phartneriaeth Menter Lleol Swydd Gaer a Warrington yn bwysig a chynigir ffurfio cyd-grŵp cydlynu traws-ffiniol, heb bwerau gwneud penderfyniadau.

Bydd cyfansoddiad manwl a Chytundeb Rhyng-Awdurdod yn cael ei ddatblygu yn barod ar gyfer tymor newydd y cyngor. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys Prif Weithredwyr a'r arweinwyr proffesiynol priodol ar gyfer datblygu economaidd, y Swyddogion Monitro a Rheolwyr Cyllid/ Swyddogion Adran 151.

**CAMAU DATBLYGU NESAF**

Yn y cyfamser, cyn yr etholiadau lleol bydd gwaith yn cael ei gwblhau ar y cyfansoddiad drafft a'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod.

Mae gwaith yn parhau wrth baratoi ar gyfer Bid Twf ffurfiol gyda gweision sifil gyda'r disgwyliad y bydd trafodaethau ffurfiol dros fid yn dechrau erbyn mis Gorffennaf unwaith bydd y cydbwyllgor yn bodoli.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae datblygu'r Economi Lleol yn flaenoriaeth o fewn Cynllun Corfforaethol cyfredol y Cyngor. Tra gall llawer o'r gwaith sy'n ymwneud â hyn gael ei wneud ar lefel lleol, nid oes amheuaeth fod cryfhau'r economi rhanbarthol hefyd yn hanfodol. Mae'r gwaith i weithredu Gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Twf Economaidd i Ogledd Cymru yn gydran graidd a disgwylir y byddai datblygu Fid Cynllun Twf yn un ffordd o gyflawni'r weledigaeth twf rhanbarthol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyfrannu £30,000 i'r prosiectau sy'n cael eu gwneud gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Caiff cyfraniadau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Busnes Gogledd Cymru eu hychwanegu at y cyllid hwn. Fel bydd trafodaethau ar gyfer Bid Cynllun Twf posib yn datblygu, gallai'r angen am gyllid ychwanegol ddod i'r amlwg ond maent yn anhysbys ar hyn o bryd. Bydd amodau unrhyw Gais Cynllun Twf yn ei hun yn pennu unrhyw gyfraniadau posib y gellid gofyn i'r Cyngor ei wneud. Bydd y rhain yn ddibynnol ar drafodaeth bellach a phenderfyniad ffurfiol drwy strwythurau llywodraethol addas y Cyngor cyn gwneir unrhyw ymrwymiadau pendant.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

Ar y cyfan, mae'r Bid Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn cael ei asesu fel bod yn cael effaith gadarnhaol ar Ogledd Cymru yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Daw ei brif fanteision o'r mwy o gyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch economaidd, cyfoeth a lles personol a busnes y bydd ei weithgareddau yn creu, yn arwain at gymunedau mwy bywiog a chynaliadwy, gyda llai o amddifadedd a diweithdra, a gostyngiad yn yr anghydraddoldeb sy'n deillio o amddifadedd.

Mae risgiau, fodd bynnag - o ran pa mor gynhwysol fydd y twf a'r effaith y gallai twf gael ar y rhanbarth yn gyffredinol a Sir Ddinbych yn benodol. Bydd rheoli'r risgiau hyn yn gofyn am gamau bwriadol gan Gynghorau Gogledd Cymru a'u partneriaid. Mae rhai mesurau lliniaru eisoes ar y gweill, mae angen datblygu eraill.

Mae mwy o fanylion yn yr Asesiad Effaith ar Les sydd wedi ei atodi yn Atodiad 3

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Fel a nodwyd yn yr adroddiad, mae ymgynghori dwys wedi ei wneud ar lefel ranbarthol. Yn lleol, darparwyd y Cynghorwyr â sesiwn friffio ar y Weledigaeth Twf wreiddiol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes angen gwneud penderfyniad am gyllid o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Mae'n bosib y bydd telerau cais twf yn y dyfodol yn gofyn am ymrwymiad ariannol gan y cyngor ond byddai hyn yn ddibynnol ar drefniadau cymeradwyo a llywodraethu mewnol presennol cyn ymrwymo. Mae'n bwysig bod y model llywodraethu i gefnogi cydbwyllgor yn cael ei ystyried yn briodol a bod ymgynghori yn digwydd arno cyn gweithredu.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid yw cymeradwyo gwaith pellach i ddatblygu cydbwyllgor statudol yn dod ag unrhyw risgiau penodol i'r Cyngor ar hyn o bryd. Bydd datblygu'r cylch gorchwyl manwl a'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn mynd i'r afael â materion risg a bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r Cyngor ar ôl yr etholiad pan fydd y gwahoddiad i ymuno yn cael ei ddwyn yn ôl i'w ystyried.

Nid yw'r ddogfen Gweledigaeth Twf yn cyflwyno unrhyw risgiau penodol yn ei hun. Fel bydd yn datblygu i gynllun gweithredu, gan gynnwys trafodaethau ar gyfer Bid Cynllun Twf, bydd risgiau ariannol, gweithredol, a risgiau i enw da yn amlygu eu hunain. Bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith rhanbarthol i gyflawni yn erbyn y Ddogfen Weledigaeth ac yn cael eu hadrodd i'r Cyngor maes o law pan fydd angen unrhyw gymeradwyaeth ffurfiol gan Gyngor Sir Ddinbych.

Fel gydag unrhyw weithgarwch datblygu economaidd, mae risg na fydd y farchnad yn ymateb ac na fydd twf economaidd yn datblygu. Fel lliniaru, mae'r Weledigaeth Twf wedi ei selio ar drafodaethau manwl ac asesiad proffesiynol o economi Gogledd Cymru, a'i chryfderau, ei gwendidau a'r potensial i dyfu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

*a105(5) Deddf Llywodraeth Leol 1972*